

**ARCHWILIAD**  
**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**  
**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

**M5 (1) Datganiad Sesiwn Gwrandawriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar  
Ogwr**

**Mater 5: Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus – Ynni Adnewyddadwy**

***Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli ynni adnewyddadwy a datblygiad carbon isel sydd wedi'i seilio'n gadarn, ei gadarnhau ac sy'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol?***

**1. A yw'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn drylwyr, wedi'i seilio ar dystiolaeth gredadwy ac yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ydy, mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy y Cyngor (gweler SD84) yn drylwyr ac wedi'i seilio ar dystiolaeth gredadwy, ac mae'n gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon. Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr, Medi 2015 wedi'i ddefnyddio i hysbysu a llywio Asesiad Ynni Adnewyddadwy y Cyngor. Pan fo'n briodol mae dulliau wedi'u diweddarau i ystyried cyd-destun o ran lle ac amser Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033. Mae hyn yn gyson â'r cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru paragraff 5.9.9, sy'n cydnabod "...dylid eu haddasu i'r amgylchiadau lleol er mwyn gallu gwneud y gorau o gyfleoedd trydan a gwres adnewyddadwy...". Cefnogir y dull asesu gan swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Yn yr asesiad hwn, mae gofynion ynni presennol a dyfodol y fwrdeistref sirol, a'r cynnydd mewn bodloni'r gofynion hyn ar gynhyrchu ynni carbon isel lleol, wedi'u hamcangyfrif. Yn erbyn y gefnlen hon, cynhaliwyd asesiad adnoddau o'r tir o fewn ffin y fwrdeistref sirol er mwyn nodi'r potensial ar gyfer cyflawni prosiect ynni carbon isel ac adnewyddadwy erbyn 2033. Ystyriwyd y technolegau canlynol:

- Ynni gwynt
- Solar ffotofoltaig yn y ddaear
- Ynni biomas
- Ynni o wastraff
- Ynni dŵr
- Solar ffotofoltaig ar adeiladau

Gwnaed gwaith blaenorol gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr o dan y rhaglen Systemau Clyfar a Gwres. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r potensial am wres carbon isel yn y fwrdeistref sirol a hysbysodd y potensial a'r cyfleoedd gwres carbon isel yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r adnoddau posibl sydd ar gael wedi'i gymharu â rhagolygon y galw am ynni yn y dyfodol. Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd holl anghenion ynni y fwrdeistref sirol yn y dyfodol yn gallu cael eu cynhyrchu o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel oherwydd materion anymarferol cyflawni'r lefel o ynni solar ffotofoltaig yn y ddaear yn yr asesiad.

Bydd dibyniaeth hefyd ar ynni ychwanegol a gynhyrchir o rannau eraill o'r wlad ac alltraeth. O gofio hyn, mae targedau cyflawni ynni adnewyddadwy wedi'u gosod yn y CDLI newydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau lleol sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol. Mae gan y fwrdeistref sirol adnodd ynni gwynt uchel ac ynni solar, ac mae llawer o'r fwrdeistref sirol wedi'i dynodi ar gyfer datblygiadau ynni gwynt a solar blaenoriaeth ar raddfa fawr Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

## **2. A yw'r Cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng sylweddoli potensial ardaloedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwarchod y dirwedd, ac amgylchedd naturiol a hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr?**

Ydy, mae'r cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gwireddu potensial yr ardal am gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwarchod y dirwedd, ac amgylchedd naturiol a hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (SD84) wedi nodi'r cyfraniad y gallai'r fwrdeistref sirol ei wneud o bosibl tuag at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol ac wedi nodi mai gwynt a solar yw'r prif adnoddau ynni i gyrraedd y targedau hynny. Mae'r targedau adnoddau ynni adnewyddadwy yn Nhabl 10 o'r CDLI newydd yn adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy.

Er mwyn sicrhau bod y targedau a osodwyd yn realistig a chyflawnadwy, cynhaliodd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy asesiad lefel uchel o gyfyngiadau yn y fwrdeistref sirol er mwyn nodi ardaloedd (Ardaloedd Chwilio Lleol) a ystyrir yn fwy addas ar gyfer lleoliad datblygiadau ynni gwynt a solar. Adolygodd Adran 7 ac Atodiad 3 o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yr ardaloedd â llai o gyfyngiadau ar gyfer ynni gwynt a solar a nodir yn Adran 4 yn erbyn nifer o gyfyngiadau (e.e. Dosbarthiad Tir Amaethyddol, tirwedd hanesyddol, ardaloedd archeolegol sensitif) i helpu i gefnogi gwaith blaenoriaethu ardaloedd i'w targedu ar gyfer datblygiad. Cafodd y lleoliadau a nodwyd eu troshaenu hefyd ochr yn ochr â'r 15 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a ddiffiniwyd fel rhan o'r asesiad sensitifrwyd y dirwedd a nodwyd yn SPG20: Ynni Adnewyddadwy a'r Dirwedd (2016). Er y canfu'r asesiad fod holl dirwedd y Cyngor yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr, mae'n nodi dwy Ardal Cymeriad Tirwedd (1: Ucheldir Eang a

Choedwig Llangynwyd ac 8: Coedwig Ogwr a'r Ucheldir Cyfagos) sydd y lleiaf sensitif i ddatblygiad tyrbîn gwynt. O ran datblygiadau solar ffotofoltaig, ystyrir bod y Fwrdeistref Sirol gyfan yn sensitif iawn i gynlluniau solar sy'n fwy na 15 hectar (~8.5 MW). Fodd bynnag, ystyrir mai Ardal Cymeriad Tirwedd 12: Gwastadedd Calchfaen Newton Down yw'r lleiaf sensitif ac fe'i nodir yn SP13 yn lleoliad addas ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltaig yn y Fwrdeistref Sirol.

At hynny, mae Polisi SP13 yn amlinellu meini prawf i asesu cynigion ar raddfa'r Awdurdod Lleol cyfan. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cynigion datblygu ynni carbon isel yn arwain at effeithiau annerbyniol ar y dirwedd, nac amgylchedd naturiol a hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn cael ei orfodi drwy sicrhau bod datblygiadau ynni adnewyddadwy y tu allan i Ardaloedd a Rag-aseswyd yn bodloni meini prawf 1a), 1b) ac 1c) o Bolisi SP13 yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Ystyrir bod hyn yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 5.9.14 sy'n datgan "Dylai bod rhagdybiaeth o blaid datblygu yn yr ardaloedd a nodir, gan gynnwys derbyn y bydd y dirwedd yn newid, gyda pholisïau â meini prawf clir yn amlinellu'r ystyriaethau lleoliadol manwl y bydd angen eu hystyried yng ngham y cais cynllunio."

Felly mae'r cynllun yn darparu cydbwysedd priodol rhwng gwireddu potensial yr ardal ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy wrth sicrhau y cynigir digon o amddiffyniad i'r dirwedd ac amgylchedd naturiol a hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr.

### **3. A yw Polisi SP13 yn darparu fframwaith polisi priodol ar gyfer gwireddu potensial Pen-y-bont ar Ogwr o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy?**

Ydy, bydd SP13 (a'r polisïau rheoli datblygu ategol) yn cynorthwyo'r Fwrdeistref Sirol drosglwyddo i system ynni carbon isel ddatganoledig sy'n gweithio ar gyfer ei unigolion, cymunedau a busnesau drwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon.

#### **a) A yw'r polisi'n gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae Polisi SP13 wedi'i lywio gan sail dystiolaeth gref gan ddefnyddio'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy, Strategaeth Ynni Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a Cymru'r Dyfodol 2040. Bydd Polisi SP13 (a'r polisïau rheoli datblygu ategol) cynorthwyo'r Fwrdeistref Sirol drosglwyddo i system ynni carbon isel ddatganoledig sy'n gweithio ar gyfer ei unigolion, cymunedau a busnesau drwy annog prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon. Mae Polisi Cynllunio Cymru paragraff 5.9.14 yn datgan "Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi a llywio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn gwneud y gorau o botensial eu hardal. Dylai awdurdodau cynllunio asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisïau gofodol yn eu cynllun datblygu, sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW. Dylai bod rhagdybiaeth o blaid datblygu yn yr ardaloedd a nodir, gan gynnwys

*derbyn y bydd y dirwedd yn newid, gyda pholisïau â meini prawf clir yn amlinellu'r ystyriaethau lleoliadol manwl y bydd angen eu hystyried yng ngham y cais cynllunio."*

Fel y nodir mewn polisi cynllunio cenedlaethol, mae Polisi SP13 yn amlinellu'r meini prawf i asesu cynigion hyd at raddfa Awdurdod Lleol cyfan. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi a'u cyfeirio i LCA1: Ucheldir Eang a Choedwig Llangynwyd (Addas ar gyfer Ynni Gwynt), LCA8: Coedwig Ogwr a'r Ucheldir Cyfagos (Addas ar gyfer Ynni Gwynt); a LCA12: Gwastadedd Calchfaen Newton Down (Addas ar gyfer Ynni Solar). O fewn yr ardaloedd hyn a'r tu allan iddynt, bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt a solar yn cael eu caniatáu yn amodol ar feini prawf 1a), 1b) ac 1c) a pholisïau perthnasol eraill yn y cynllun. Bydd cynigion datblygu eraill yn yr ardaloedd hyn yn cael eu caniatáu dim ond pan allan nhw arddangos na fyddan nhw'n mynd yn groes yn annerbyniol i botensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy yr Ardal Chwilio Leol neu Ardaloedd Cymru'r Dyfodol a Rag-aseswyd ar gyfer Ynni Gwynt.

Felly mae Polisi SP13 yn darparu fframwaith sy'n gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a bydd yn caniatáu i'r Cyngor gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy wrth sicrhau bod datblygiad wedi'i leoli mewn ardaloedd priodol a ystyrir yn addas i gynnal darpariaeth o'r fath.

**b) A yw'r ardaloedd chwilio lleol diffiniedig ar gyfer ynni gwynt a solar yn drylwyr? A ddylid eu hanodi ar y map cynigion?**

Ydyn, ystyrir bod yr Ardaloedd Chwilio Lleol diffiniedig ar gyfer datblygiad ynni gwynt a solar yn drylwyr. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 5.9.14 yn datgan *"Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi a llywio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn gwneud y gorau o botensial eu hardal. Dylai awdurdodau cynllunio asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisïau gofodol yn eu cynllun datblygu, sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW"*.

Cynhaliodd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy asesiad lefel uchel o gyfyngiadau yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn nodi ardaloedd a ystyriwyd yn fwy addas ar gyfer lleoliad datblygiadau ynni gwynt a solar ffotofoltaig yn y ddaear. Adolygodd Adran 7 ac Atodiad 3 o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yr ardaloedd â llai o gyfyngiadau ar gyfer ynni gwynt a solar a nodir yn Adran 4 yn erbyn nifer o gyfyngiadau (e.e. Dosbarthiad Tir Amaethyddol, tirwedd hanesyddol, ardaloedd archeolegol sensitif) i helpu i gefnogi gwaith blaenoriaethu ardaloedd i'w targedu ar gyfer datblygiad. Cafodd y lleoliadau a nodwyd eu troshaenu hefyd ochr yn ochr â'r 15 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a ddiffiniwyd fel rhan o'r asesiad sensitifrwyd y dirwedd a nodwyd yn SPG20: Ynni Adnewyddadwy a'r Dirwedd (2016).

Er y canfu'r asesiad fod holl dirwedd y Cyngor yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt a solar ar raddfa fawr, mae'n nodi dwy Ardal Cymeriad Tirwedd (1: Ucheldir Eang a Choedwig Llangynwyd ac 8: Coedwig Ogwr a'r Ucheldir Cyfagos) sydd y lleiaf sensitif i ddatblygiad tyrbîn gwynt. Mae Ardal Cymeriad Tirwedd 8: Coedwig Ogwr a'r Ucheldir Cyfagos wedi'i lleoli o fewn Ardaloedd Cymru'r Dyfodol a Rag-aseswyd ar gyfer Ynni Gwynt ac yn unol â Pholisi SP13, bydd angen i unrhyw gynnydd yn yr ardal hon sicrhau nad effeithir ar fwriad dynodiad yr Ardal Flaenoriaeth.

O ran datblygiadau solar ffotofoltaig, ystyrir bod y Fwrdeistref Sirol gyfan yn sensitif iawn i gynlluniau solar sy'n fwy na 15 hectar (~8.5 MW). Fodd bynnag, ystyrir mai Ardal Cymeriad Tirwedd 12: Gwastadedd Calchfaen Newton Down yw'r lleiaf sensitif ac fe'i nodir yn SP13 yn lleoliad addas ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltaig yn y Fwrdeistref Sirol. Felly ystyrir bod yr Ardaloedd Chwilio Lleol Diffiniedig ar gyfer datblygiad ynni gwynt a solar yn drylwyr.

Nid yw'r Ardaloedd Chwilio Lleol a nodwyd wedi'u hanodi ar y map cynigion er mwyn cynnal eglurder a darllenadwyedd. Fodd bynnag, gellir ychwanegu'r ardaloedd at y map cynigion os oes angen.

**c) A ddylai ardal chwilio leol ddiffiniedig ar gyfer ynni gwynt gael eu haddasu i ystyried yr ardaloedd a rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt sydd wedi'u cynnwys yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol?**

Mae'r CDLI newydd yn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw Ardal Chwilio Leol ar gyfer ynni gwynt sy'n gorgyffwrdd ag Ardal a Rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol sicrhau nad amharir ar yr Ardal a Rag-aseswyd. Mae'r testun ategol o dan Bolisi SP13 paragraff 5.4.89 yn datgan bod Ardal Cymeriad Tirwedd 8: Coedwig Ogwr a'r Ucheldir Cyfagos wedi'i lleoli o fewn Ardaloedd a Rag-aseswyd Cymru'r Dyfodol ar gyfer Ynni Gwynt, ac y bydd angen sicrhau nad amharir ar fwriad yr Ardal Flaenoriaeth yn unol â SP13. Felly ystyrir bod y testun ategol yn glir ac yn cyd-fynd â chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

**d) A yw gofynion Polisi SP13(b) a pharagraff 5.4.85 yn briodol ar gyfer ystyried datblygiad ynni gwynt o lai na 10MW? Sut bydd y dull yn gweithio o'i ystyried yn unol â Pholisïau SP17 a DPN4?**

Ystyrir bod gofynion Polisi SP13 1(b) a pharagraff 5.4.85 yn briodol ar gyfer ystyried datblygiad ynni gwynt o lai na 10MW. Bydd angen i ddatblygiad ynni gwynt o lai na 10MW gydymffurfio yn gyntaf â Pholisi SP13(b). Os nodwyd bod y datblygiad wedi'i lleoli mewn Ardal Tirwedd Arbennig, bydd angen i'r datblygiad fodloni Polisi DPN4 hefyd a bydd hynny'n cael blaenoriaeth ar Bolisi SP13(b). Bydd Polisi DPN4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad o'r fath fod yn destun Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol i nodi effeithiau sylweddol tebygol a dangos bod camau lliniaru digonol wedi'u cynnwys yn y cynigion. Ni fydd angen Polisi SP17 (2) wrth asesu datblygiad o'r fath o ran materion tirwedd

oherwydd ystyrir y bydd Polisiâu SP13 a DNP4 yn ddigonol i asesu unrhyw effaith debygol er y gellid ystyried bod meini prawf eraill ym Mholisi SP17 yn berthnasol i gynnyg y datblygiad.

**4. A ddylai'r ardaloedd a rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt sydd wedi'u cynnwys yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol gael eu hanodi ar y map cynnygion?**

Nid yw'r Ardaloedd a Rag-aseswyd ar gyfer ynni gwynt yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol wedi'u hanodi ar y map cynnygion er mwyn cynnal eglurder a darllenadwyedd. Fodd bynnag, gellir ychwanegu'r Ardaloedd a Rag-aseswyd os oes angen.

**5. A yw'r targed ar gyfer cynhyrchu ynni sydd wedi'i gynnwys yn Nhabl 10 – Targedau ar gyfer Defnydd Adnoddau ar sail Ardal yn briodol neu a ddylai fod yn fwy uchelgeisiol?**

Ystyrir bod y targedau ar gyfer cynhyrchu ynni sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 10 – Targedau ar gyfer Defnydd Adnoddau ar sail Ardal yn briodol ac wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (SD84). Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 5.92 yn datgan *“Er mwyn cynorthwyo i gyflawni targedau ynni a datgarboneiddio, rhaid i awdurdodau lleol a rhanbarthol gymryd dull gweithredu llesol ac arweiniol ar lefel leol a/neu ranbarthol drwy bennu eu gweledigaeth ar gyfer datgarboneiddio ac ynni yn eu hardaloedd.”* Hefyd, mae Polisi Cynllunio Cymru paragraff 5.9.6 yn datgan *“Dylai awdurdodau lleol ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael iddynt yn eu hardaloedd wrth lunio eu targed ynni adnewyddadwy, wedi'i lywio gan sail dystiolaeth briodol, a defnyddio'r amrywiaeth lawn o opsiynau polisi sydd ar gael, yn cynnwys polisiâu datblygu yn eu cynlluniau datblygu. Ni ddylid ystyried bod targedau'n derfynau uchaf. Yn hytrach, dylid eu defnyddio fel adnodd i wneud y mwyaf o'r adnodd sydd ar gael. Ni ddylid gwrthod ceisiadau cynllunio ar sail rhagori ar darged ynni adnewyddadwy.”*

Lluniwyd y sylfaen dystiolaeth a grëwyd yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy drwy bennu potensial yr adnodd ynni adnewyddadwy (gweler Adran 4) a chymharu'r potensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy â'r galw am ynni (gweler Adran 5). Yna defnyddiwyd ac ystyriwyd y dystiolaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth yn ymwneud â ffactorau lleol a Senarios Ynni'r Dyfodol Gweithredydd System Drydan (ESO) y Grid Cenedlaethol i awgrymu targedau posibl y gellid eu mabwysiadu – rhannwyd y targedau posibl hyn â rhanddeiliaid mewn ymarfer ymgysylltu. Canfu'r sylfaen dystiolaeth mai ynni gwynt a solar oedd y prif adnoddau ynni adnewyddadwy yn y Fwrdeistref Sirol. Datblygwyd senarios targed lefel isel ac uchel ar gyfer ynni gwynt a solar (gweler tudalen 105 o'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy) ac fe'u cyfrifwyd ar sail y canlynol:

- Targed isel: Twf rhagamcanol ESO y Grid Cenedlaethol mewn capasiti cenedlaethol ynni gwynt/solar ar y tir hyd at 2033 ar gyfer y senario Dwy Radd (mae'r senario hwn wedi'i seilio ar system ynni ganolog sy'n cyrraedd y targedau lleihau ynni o 80%).
- Targed uchel: Twf rhagamcanol ESO y Grid Cenedlaethol mewn capasiti cenedlaethol ynni gwynt/solar ar y tir hyd at 2033 ar gyfer y senario Ynni Adnewyddadwy Cymunedol.

Yn dilyn gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid (a gynhaliwyd gydag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol CBS Pen-y-bont ar Ogwr a chynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru), cytunwyd ar darged ar gyfer y ddwy dechnoleg gynhyrchu wedi'i seilio ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cyfyngiadau tirwedd. Mae'r targed cynhyrchu ynni gwynt wedi'i seilio ar gyfuniad o'r capasiti sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ac amcangyfrif o'r potensial sy'n weddill yn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y nodwyd bod ganddynt sensitifrwydd cymedrig i ddatblygiadau tyrbinau gwynt mawr o uchder mwyaf o 76-110m (yn hytrach na sensitifrwydd uchel). Mae'r targed solar yn y ddaear wedi'i seilio ar drosglwyddo mwyafrif y potensial cynhyrchu ynni gwynt i solar ffotofoltaig, o ystyried y crynodiad trwm o dyrbinau gwynt sydd eisoes yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Mae'r targed solar ffotofoltaig ar adeiladau wedi'i seilio ar gyfuniad o'r capasiti sydd wedi'i osod ar hyn o bryd a'r awydd i flaenoriaethu gwaith o ymgorffori'r dechnoleg mewn cynigion adeiladu newydd.

Felly ystyrir bod y targedau hyn yn briodol ac yn uchelgeisiol ar sail tystiolaeth drylwyr glir a fydd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ochr yn ochr â defnyddiau tir eraill ac ystyriaethau eraill.

## **6. A yw Polisiâu ENT10 ac 11 yn angenrheidiol? Ydyn nhw'n darparu dull priodol o sicrhau technolegau gwres carbon isel ar gyfer datblygiad newydd a chynllun effeithlon o ran ynni?**

### **a) A yw gofynion y polisiâu wedi'u disodli gan addasiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladau?**

Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yr holl gartrefi newydd yn ddi-garbon yn y lle cyntaf. Mae Strategaeth Ynni Ardal Leol Pen-y-bont ar Ogwr (SD61) a'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (SD84) yn nodi'r ardaloedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer datblygu atebion sy'n gyfuniadau o wres ardal, hybrid a thrydan, gyda gwahanol lefelau o ôl-osod ffabrig wedi'u targedu. Mae Polisi ENT10 yn amlinellu dull dilyniannol sy'n galw ar ddatblygiadau mawr newydd i ddangos bod systemau gwresogi ac oeri cynaliadwy wedi'u dewis yn y lle cyntaf, pan fo hynny'n ddichonadwy ac yn hyfyw yn ariannol. Mae archwilio rhwydweithiau gwres yn cyd-fynd yn uniongyrchol â Pholisi 16 Cymru'r Dyfodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 5.9.13 hefyd yn annog cynlluniau datblygu i gefnogi cyfleoedd ar gyfer cynllun cynhyrchu ynni carbon lleol gan ddatgan "*Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu sail dystiolaeth i lywio polisiâu a chynigion ar gyfer ynni lleol. Dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd a nodir ar gyfer rhwydweithiau gwres a chynlluniau cynhyrchu ynni*

*adnewyddadwy a charbon isel lleol a chydleoli cynigion newydd a dyraniadau tir gyda datblygiadau presennol, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres.”*

Ar ôl mabwysiadu'r newidiadau i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd adolygiad o Bolisi ENT10. Er y cydnabyddir bod Adran 3 o Ddogfen Gymeradwy Rhan L: Rhifyn 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried systemau amgen effeithlon iawn, nid yw'r rheoliadau adeiladu'n ei gwneud yn ofynnol i systemau amgen effeithlon iawn na systemau di-garbon neu garbon isel eraill gael eu gosod. Felly ystyrir bod gofynion Polisi ENT10 yn dal i fod yn ofynnol i gyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol.

Mae ENT11 yn parhau â dull presennol y Cyngor i geisio cyflawni tai mwy effeithlon o ran ynni a charbon is, a datblygiadau sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol mewn ystyr ehangach er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y Fwrdeistref Sirol ac amcanion polisi cenedlaethol. Mae ENT11 yn ceisio sicrhau bod cynllun a safon unrhyw ddatblygiad newydd y gorau y gallai fod er mwyn cyflawni effeithlonrwydd ynni ac allyriadau di-garbon. Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos bod safonau dylunio cynaliadwy yn rhan annatod o'r cynigion drwy adeiladu a gweithredu, gan sicrhau y cânt eu hystyried ar ddechrau'r broses ddylunio.

Fodd bynnag, cynhaliwyd adolygiad o'r meini prawf sydd ym Mholisi ENT11 o'u cymharu â'r newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu:

- 1) Wedi'i ymgorffori bellach yn Nogfen Gymeradwy 0 – Gorboethi.
- 2) Wedi'i ymgorffori bellach yn Newidiadau Rhan L (Gwell trosglwyddiad gwres).
- 3) Bydd Rhan L yn sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni fel insiwleiddio yn y llofft/waliau wedi'u gosod.
- 4) Yn ymdrin â chynigion dibreswyl. Heb ei gynnwys yn Rhan L Rheoliadau Adeiladu.
- 5) Nid yw'n ofyniad gosod technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar hyn o bryd ond maen nhw wedi'u gosod yn aml i gydymffurfio â pherfformiad ynni yr adeilad.
- 6) Bydd Rhan L yn sicrhau y bydd y galw am ynni yn lleihau drwy sicrhau'r effeithlonrwydd ynni mwyaf posibl yn nyluniad y ffabrig.
- 7) Argymhellir aildddefnyddio ac ailgylchu dŵr yn Rhan L ond nid yw wedi'i orfodi.
- 8) Bydd Rhan L yn ei gwneud yn ofynnol i archwilio cyfleoedd i integreiddio atebion storio ynni i ddarparu hyblygrwydd llwyth.

Fel yr amlinellir uchod, mae mwyafrif y meini prawf a nodir ym Mholisi ENT11 wedi'u bodloni bellach yn Rhan L ddiwygiedig y Rheoliadau Adeiladu. Felly gellir dileu Polisi ENT11 os oes angen.



**b) A ddylai Datblygiad Mawr gael ei ddiffinio yng nghyfiawnhad rhesymegol y polisiau?**

Mae datblygiadau mawr yn cyfeirio at 10 neu fwy o anheddau yn unol â diffiniad Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012. Gellir ychwanegu'r diffiniad at y testun ategol os oes angen.

Mae'r gofyniad i Uwch-gynllun Ynni gael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad mawr newydd yn dilyn cyngor sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 5.8.4 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11), sy'n datgan, *“Er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chadw ynni ymhellach, dylai awdurdodau cynllunio ystyried cynnwys polisiau cynllun datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr gynnwys Adroddiad Ynni. Dylai'r adroddiad annibynnol hwn gynnwys argymhellion i'r datblygwr ynghylch effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy priodol y gellid eu hymgorffori yn y datblygiad. Dylid cynnwys ymateb i'r adroddiad hwnnw gan y datblygwr hefyd yn y cais. Os bydd awdurdodau cynllunio o'r farn na roddwyd ystyriaeth ddigonol i faterion ynni wrth ddylunio prosiect, gallant wrthod rhoi caniatâd cynllunio”*.

**c) A yw'r gofyniad ar gyfer cynlluniau ynni i gael eu darparu gan bob datblygiad mawr wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy? Beth fyddai effaith hyn ar hyfywedd datblygiad newydd?**

Mae'r gofyniad i Uwch-gynllun Ynni gael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad mawr newydd yn dilyn cyngor sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 5.8.4 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11), sy'n datgan, *“Er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chadw ynni ymhellach, dylai awdurdodau cynllunio ystyried cynnwys polisiau cynllun datblygu sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr gynnwys Adroddiad Ynni. Dylai'r adroddiad annibynnol hwn gynnwys argymhellion i'r datblygwr ynghylch effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy priodol y gellid eu hymgorffori yn y datblygiad. Dylid cynnwys ymateb i'r adroddiad hwnnw gan y datblygwr hefyd yn y cais. Os bydd awdurdodau cynllunio o'r farn na roddwyd ystyriaeth ddigonol i faterion ynni wrth ddylunio prosiect, gallant wrthod rhoi caniatâd cynllunio”*. Yn ei hymateb i'r Ymgynghoriad Adnau, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y gofynion am Uwch-gynlluniau Ynni ar gyfer datblygiadau mawr ac archwilio rhwydweithiau gwres yn cyd-fynd â Pholisi 16 (Fframwaith Datblygu Cenedlaethol). Bydd rhagor o ganllawiau ar gyfer gweithredu'r egwyddorion a'r gofynion a nodir yn ENT11 yn cael eu darparu mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladu a Dylunio Cynaliadwy yn y dyfodol.

O ran hyfywedd, cydnabyddir y bydd y gofyniad am uwch-gynllun ynni yn galw am gost gyfalaf gymedrol ymlaen llaw. Fodd bynnag, ar sail trafodaethau dangosol, ni fyddai astudiaeth ben bwrdd lefel uchel yn arwain at ffi ymgynghori sylweddol o gwbl ac mae'r arfarniadau hyfywedd penodol i safle wedi dangos

bod mwy na digon ar gael i dalu costau o'r fath heb effeithio ar hyfywedd y cynllun. Ystyrir yn yr un modd y bydd gan lawer o ddatblygwyr sefydledig allu mewnol i gynnal uwch-gynlluniau ynni o'r fath yn fewnol er mwyn llywio'u ceisiadau cynllunio priodol. At hynny, bydd ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau mawr newydd gynnal uwch-gynllun ynni o'r dechrau yn helpu i lywio'r math mwyaf priodol o system ynni di-garbon net, a allai yn ei dro helpu i leihau cost gyffredinol y datblygiad yn y tymor hir a darparu eglurder o ran yr atebion mwyaf priodol ar y dechrau.